

Canserau Wrolegol – Adolygiad gan Gymheiriaid 2014

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm

YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD

Y Tîm Adolygu gan Gymheiriaid

Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Dr Tom Crosby	Cyfarwyddwr Meddygol y Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru
Mr V Srinivasan	Llawfeddyg Ymgynghorol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
Mr J Featherstone	Llawfeddyg Ymgynghorol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Dr Mau-Don Phan	Oncolegydd Ymgynghorol	Canolfan Ganser Singleton Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Janet Marty	Nyrs Glinigol Arbenigol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
Melanie Simmons	Rheolwr Perfformiad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg
Mansel Thomas	Adolygydd Lleyg	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Dinene Rixon	Sylwedydd	Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Sue Davies	Cydgysylltydd Adolygu	Rhwydwaith Canser De Cymru

Teitl Rhwydwaith	Rhwydwaith Canser De Cymru	
Teitl Sefydliad	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf	
Teitl Tîm	Tîm Amlddisgyblaethol Wroleg	
Teitl Dyddiad Adolygu	30 Ionawr 2014	
Enw	Teitl Swydd	Sefydliad
Mr K Asaad	Cyfarwyddwr Meddygol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Dr J Barber	Oncolegydd Ymgynghorol	Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Georgina Boon	Ymarferydd Nyrsio Wro-oncoleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Mr G Brown	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Paula Cooper	Nyrs Arwain Gofal Lliniarol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Marie Evans	Dirprwy Bennaeth Strategaeth	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Miss J French	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Mr D Jones	Wrolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Keryn Jones	Ymarferydd Arwain Nyrsio Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Dr S Kumar	Oncolegydd Ymgynghorol	Ymddiriedolaeth GIG Felindre
Gaynor Laver	Ysgrifenyddes Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Dr B Palaniappan	Radiolegydd Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Anthony Shanahan	Ymarferydd Gofal Llawfeddygol Wroleg	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Mr R Singh	Llawfeddyg Ymgynghorol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Craige Wilson	Cyfarwyddwr Gweithrediadau Cynorthwyol	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Dr R Winter	Radiolegydd Arwain Clinigol Ymgynghorol Canser	Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf

Themâu Allweddol

1 Strwythur a Swyddogaeth y Gwasanaeth

Cyfarfu'r tîm adolygu gan gymheiriaid â chynrychiolwyr o dîm amlddisgyblaethol wroleg Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf i adolygu ei wasanaethau cancer wrolegol. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu gofal iechyd ar gyfer cymunedau Merthyr Tudful, Cwm Cynon, Cwm Rhondda a Thaf Elái, sy'n cynnwys rhai o'r ardaloedd mwyaf economaidd-gymdeithasol difreintiedig yng Nghymru. O ganlyniad, mae digwyddiad clefydau malaen a chlefydau cydfodol yn uwch. Darperir gwasanaethau cancer wrolegol ar ddau safle aciwt yn

Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl. Gall darparu gwasanaeth i gymuned iechyd ddifreintiedig fod yn heriol iawn, a'r ffaith bod 30 milltir rhwng y ddau ysbyty'n dwysáu'r broblem.

Mae'r tîm yn derbyn lefel uchel o atgyfeiriadau sy'n datgelu lefelau uchel o glefyd. Trafodir achosion cymhleth sy'n gofyn am driniaeth radical trwy gynhadledd fideo â thîm amlddisgyblaethol Caerdydd a'r Fro yn y cyfarfod amlddisgyblaethol ar ddydd Mawrth. Ar ôl trafodaethau amlddisgyblaethol, fe welir cleifion yng nghlinig wroleg Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae atgyfeiriadau gan feddygon teulu at Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl yn cael eu derbyn yn electronig neu drwy ffacs. Mae llwybrau gwahanol ar bob safle ac mae hyn wedi arwain at oediadau yn y broses o reoli atgyfeiriadau, sydd wedi effeithio ar y llwybr clinigol. Un flaenoriaeth a gydnabyddir gan y tîm yw symleiddio'r broses atgyfeirio a chyflwyno un pwynt ar gyfer derbyn atgyfeiriadau trwy roi system electronig o atgyfeirio ar waith.

Cefnogir tîm amlddisgyblaethol wroleg gan ddau gydlynnydd amlddisgyblaethol, un yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac un yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae cleifion sydd i gael eu trafod yn y cyfarfod amlddisgyblaethol yn cael eu cofnodi ar System Gwybodaeth Rhwydweithiau Cancer Cymru (CaNISC) gan y naill gydlynnydd neu'r llall, yn dibynnu ar ble mae'r atgyfeiriad yn cael ei dderbyn. Cynhelir cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac mae'n cael ei gydlynu gan gydlynnydd tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Y gobaith yw y bydd symleiddio'r broses o atgyfeirio hefyd yn cael effaith ar gydlynu cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r tîm yn awyddus i roi'r defnydd byw o fodiwl CaNISC y tîm amlddisgyblaethol ar waith, ac maent yn cynnal trafodaethau â thîm rheoli Gwasanaethau Cancer i drafod adnoddau er mwyn cefnogi'r datblygiad hwn. Ar hyn o bryd, mae cynllun rheoli'r tîm amlddisgyblaethol yn cael ei gwblhau ar brofforma. Mae copi o hwn yn cael ei gofnodi ar nodiadau cleifion, ac mae copi yn cael ei anfon at y tîm gofal sylfaenol. Nodwyd bod pob llythyr ar gael yn electronig ar Myrddin (system weinyddu cleifion).

Mae presenoldeb da yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol gan gynrychiolwyr o radioleg, patholeg ac oncoleg, a chan nyrsys arbenigol wroleg. Fodd bynnag, nid yw aelod o'r tîm gofal lliniarol wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar 25 o adegau (52%). Rhoddwyd sicrwydd i'r tîm adolygu gan gymheiriaid bod llwybrau cadarn ar waith i atgyfeirio cleifion at y tîm gofal lliniarol. Mae tîm o dri radiologydd yn rhoi cefnogaeth ardderchog ac yn darparu trawsgyflenwi ar gyfer rhestrau biopsïau TRUS ac MRI arbenigol; mae rhestrau ychwanegol hefyd ar gael er mwyn cefnogi'r galw presennol ar y gwasanaeth wroleg. Nodwyd nad oedd sganiau o'r esgyrn ar gael ar y pryd; rhoddwyd sicrwydd i'r tîm

adolygu y byddai'r mater hwn yn derbyn sylw'n fuan.

Mae gan y ddau safle glinig haematwria un stop, ac yn sgil trafodaeth â'r Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd (NLIAH), maent wedi sefydlu clinig biopsi'r brostad un stop. Mae'r galw ar hyn o bryd yn uwch na'r capasiti, ac mae mentrau rhestrau aros wedi cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau rhagor o gapasiti. Oherwydd diffyg graddau iau, mae'r gwasanaethau hyn mewn perygl oherwydd lefelau staffio isel.

Mae clinigau PSA uchel a arweinir gan nyrsys wedi'u sefydlu ar y ddau safle. Mae cleifion a chanddynt PSA uchel sy'n cael eu hatgyfeirio yn cael eu gweld i ddechrau gan nyrsys arbenigol wroleg, ac mae'r broses o wneud diagnosis yn cael ei hesbonio. Mae cleifion yn derbyn canlyniadau eu biopsi trwy alwad ffôn ddilynol, ac maent yn derbyn llyfryn cleifion a gwybodaeth am waith allweddol trwy'r post. Mae'r tîm nyrsio wedi cynnal archwiliad o'r gwasanaeth hwn, ac mae'r canfyddiadau wedi bod yn gadarnhaol iawn.

Mae bodloni amseroedd aros ar gyfer canser wrolegol yn her i'r bwrdd iechyd, ac er bod clinigau un stop wedi eu cyflwyno, mae oediadau yn y llwybr gofal o hyd. Mae cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at Fwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn profi oediadau hir cyn cael eu llawdriniaeth. Cydnabuwyd bod angen i'r bwrdd iechyd gryfhau ei fecanweithiau monitro perfformiad ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at ganolfannau trydyddol ar gyfer triniaeth.

Mae Gwasanaethau Canser yn hwyluso cyfarfod tracio wythnosol er mwyn trafod perfformiad ac amseroedd aros; tynnwyd sylw'r cyfarwyddiaethau priodol at feysydd sy'n peri pryder. Mynegodd y tîm adolygu gan gymheiriaid ei bryder nad oedd presenoldeb clinigol yn y cyfarfodydd tracio, gan nodi ei fod yn hanfodol bod staff clinigol yn cymryd rhan yn y cyfarfod perfformiad er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rheoli'n rhagweithiol gan y tîm amlddisgyblaethol.

Nodwyd bod y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth Glinigol (NICE) wedi diweddarau ei gyfarwyddyd ar wella canlyniadau ar gyfer canserau wrolegol. Mae'r bwrdd iechyd wedi gweithio'n rhagweithiol trwy argymhellion y cyfarwyddyd, ac ar hyn o bryd mae'n darparu MRI amlbarametrig, ac yn symud o biopsi targedig i fiopsi templed.

Mae'r bwrdd iechyd wedi cynnal digwyddiad i randdeiliaid yn ddiweddar, lle nodwyd bod datblygu gwasanaeth oncoleg aciwt yn flaenoriaeth. Ar hyn o bryd, mae'r bwrdd iechyd yn gwneud ymchwil o fodolau gwahanol, a bydd yn ymweld â Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan er mwyn deall sut mae wedi cyflwyno ei wasanaeth oncoleg aciwt.

Mae recriwtio ar gyfer treialon clinigol ar gael i gleifion sy'n cael eu hatgyfeirio at y canolfannau trydyddol ar gyfer eu triniaeth; mae recriwtio ar gyfer sbesimenau ar gyfer y Banc Canser yn wael oherwydd diffyg adnoddau.

2 Gofal a Phrofiad sy'n Canolbwyntio ar y Claf

Mae tîm o nyrsys clinigol arbenigol yn gweithio ar y ddau safle yn darparu cymorth nyrsio a gweithwyr allweddol ar gyfer cleifion. Mae'r nyrsys clinigol arbenigol yn cynnal clinig PSA uchel. Mae cleifion sydd â PSA uchel yn cael eu gweld i ddechrau gan nyrsys arbenigol wroleg, ac mae'r broses o wneud diagnosis yn cael ei hesbonio. Mae cleifion yn derbyn canlyniadau eu biopsi trwy alwad ffôn ddilynol, ac maent yn derbyn llyfryn cleifion a gwybodaeth am waith allweddol trwy'r post.

Mae'r tîm nyrsio wedi cynnal nifer o archwiliadau sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn gwybod barn y cleifion ar y wybodaeth maent yn ei derbyn ac addaswydd manau cleifion.

Nodwyd bod canlyniadau arolwg diweddar o gleifion gan Macmillan wedi'u hanfon at bob rhan o'r bwrdd iechyd; fodd bynnag, nid oedd canfyddiadau'r arolwg wedi cael eu rhannu â'r tîm wroleg.

a. Tystiolaeth Gweithiwr Allweddol

Cadarnhaodd y nyrsys clinigol arbenigol mai nhw sy'n cyflawni rôl gweithiwr allweddol ar gyfer y cleifion; mae pob claf yn derbyn cerdyn gweithiwr allweddol ac arno rifau ffôn y tîm. Roedd tystiolaeth o weithiwr allweddol mewn pedwar o'r pum sampl o nodiadau achos a roddwyd gan y bwrdd iechyd.

3 Ansawdd a Chyflenwi Gwasanaeth

a. Cymorth i'r Gwasanaeth gan y Tîm Amlddisgyblaethol

Cynhelir y cyfarfod amlddisgyblaethol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, ac mae'n cael ei gydlynu gan gydlynnydd tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae atgyfeiriadau'n cael eu cofnodi ar CaNISC, yn dibynnu a ydynt yn cael eu derbyn gan gydlynnydd tîm amlddisgyblaethol Ysbyty Brenhinol Morgannwg neu gydlynnydd tîm amlddisgyblaethol Ysbyty'r Tywysog Siarl. Ar hyn o bryd, mae'r tîm yn symleiddio'r broses atgyfeirio – dylai hyn wella'r broses o gydlynu cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn awyddus i roi ei fodiwl ar waith yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol, er mwyn helpu wrth gydlynu'r cyfarfod a chefnogi casglu a dilysu data byw.

Mae presenoldeb da yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol gan gynrychiolwyr o radioleg, patholeg ac oncoleg, a chan nyrsys arbenigol wroleg. Fodd bynnag nid yw aelod o'r tîm gofal lliniarol wedi bod yn bresennol yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol ar 25 o adegau (52%). Serch hynny, mae llwybrau cadarn ar waith i atgyfeirio cleifion at y tîm gofal lliniarol.

Mae'r tîm radioleg yn darparu gwasanaeth rhagorol, gan ganiatáu i'r tîm gael mynediad at ddelweddau radiolegol eglur iawn, gan gynnwys CT, MRI a radioleg ymyriadol sy'n cefnogi llwybr diagnostig y cleifion.

a. Data Canlyniadau'r Gwasanaeth

		Targed
Nifer/% o atgyfeiriadau USC (amheuaeth frys o ganser) a dderbyniodd driniaeth o fewn 62 diwrnod	Prostad – 74% Pledren – 68% Arennol – 64%	95%
Nifer/% o atgyfeiriadau nad yw rhai USC a dderbyniodd driniaeth o fewn 32 diwrnod	Prostad – 94% Pledren – 100% Arennol – 96%	98%
Nifer/% o gleifion lle cofnodwyd cam y cancer cyn triniaeth	Prostad – 218/270 (80%) Pledren – Ni phennwyd cam tan ar ôl TURBT – 38/56 (68%)	70%
Nifer y cleifion a gafodd eu rhoi ar dreialon clinigol	9 claf trwy ganolfan oncoleg drydyddol	10%
Nifer y cleifion yn rhoi i Fanc Cancer Cymru	8.1% – data ar lefel y bwrdd iechyd	
Nifer/% o gleifion a drafodwyd yng nghyfarfod y tîm amlddisgyblaethol	Prostad – 270/270 (100%) Pledren – Ni roddwyd data Arennol – 37/56 (66%)	100%
Amser canolrifol ar gyfer cleifion â charsinoma trosiannol celloedd y bledren sy'n ymledu i'r cyhyrau ar ddechrau triniaeth iachaol ddiffiniol	Dim ar gael	93 diwrnod
Amser canolrifol cyn cael TURBT	Dim ar gael	

a. Archwiliadau, prosiectau a chanlyniadau allweddol

Mae'r tîm wedi cynnal nifer o archwiliadau sy'n canolbwyntio ar y claf er mwyn gwybod barn y cleifion ar y gwasanaeth maent yn ei ddarparu. Mae adborth wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda chleifion yn cadarnhau eu bod yn derbyn gwasanaeth effeithlon ac effeithiol o safon uchel. Mae'r tîm amlddisgyblaethol yn cynnal gwaith archwilio ar lefel rhwydwaith ac mae cleifion Cwm Taf yn cael eu cynnwys yn yr arolygiadau hyn.

b. Sylwadau cyffredinol

Nododd y tîm adolygu fod Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ar y cyfan yn darparu gwasanaeth rhagorol a arweinir gan ymgynghorwyr, a chanddo arweinydd clinigol sy'n llawn ymgysylltiedig ac ymroddedig. Nodwyd bod gan y gwasanaeth broblemau ynglŷn â chapasiti, ac roedd yn rhaid defnyddio mentrau rhestrau aros er mwyn sicrhau rhagor o gapasiti. Mae diffyg graddau iau yn cael effaith ar y gwasanaeth, sydd mewn perygl oherwydd lefelau staffio.

Cadarnhaodd y tîm ei fod yn cael y broses o gasglu data'n heriol, ac roeddent yn dibynnu ar

wybodaeth gan y canolfannau trydyddol er mwyn cefnogi'r broses o hunanasesu. Nodwyd y ddibyniaeth ar ganolfannau trydyddol ar gyfer triniaeth yn fater sy'n peri pryder hefyd oherwydd ei heffaith ar amseroedd aros cleifion.

Mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi cynnal dau gyfarfod busnes yn 2013/14 er mwyn rhoi'r cyfle i gynllunio eu gwasanaeth a nodi materion mae'n rhaid mynd i'r afael â nhw. Un canlyniad yn sgil y cyfarfod busnes oedd datblygiad polisi gweithredol y tîm amlddisgyblaethol, sy'n disgrifio'n eglur y gwasanaeth wroleg, ac mae hwn wedi'i ategu gan adroddiad blynyddol sy'n nodi manylion gweithgarwch y gwasanaeth a'r cynllun gwaith ar gyfer 2014.

Mae gan y tîm amlddisgyblaethol gefnogaeth ardderchog gan dimau llawfeddygaeth, patholeg ac oncoleg, ac mae cleifion yn cael eu cefnogi gan dîm o nyrsys clinigol arbenigol. Mae'r tîm wedi datblygu cysylltiadau ardderchog â chydweithwyr yn y ganolfan drydyddol ar gyfer cleifion sy'n cael eu hatgyfeirio ar gyfer llawdriniaeth radical, sy'n hwyluso sianeli cyfathrebu da.

Mae tîm rheoli'r bwrdd iechyd yn hwyluso nifer o gyfarfodydd er mwyn trafod perfformiad gwasanaethau canser ac amseroedd aros, ac mae gwybodaeth yn cael ei lledaenu i gyfarwyddiaethau. Fodd bynnag, nid oedd y mewnbwn clinigol yn y cyfarfodydd hyn yn glir. Pwysleisiwyd bod cyfraniad clinigol yn y cyfarfodydd perfformiad yn hanfodol, er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu rheoli mewn ffordd ragweithiol gan y tîm amlddisgyblaethol.

Mynegodd y tîm adolygu gan gymheiriaid ei bryder ynglŷn â diffyg ymwybyddiaeth o'r arolwg cleifion gan Macmillan a oedd wedi cael ei gyhoeddi'n ddiweddar, ac a oedd wedi bod ar gael i'r bwrdd iechyd nifer o wythnosau ynghynt, ond heb gael ei rannu â'r tîm wroleg.

4 Adolygiad o Wybodaeth Glinigol yn y Nodiadau Clinigol a Canisc

Adolygodd y tîm sampl o nodiadau achos ar gyfer pump o gleifion. Roedd tri o'r pump o nodiadau achos yn dangos bod hysbysiad am ddiagnosis o ganser wedi cael ei anfon at y meddyg teulu o fewn 24 awr. Roedd tystiolaeth o drafodaeth y tîm amlddisgyblaethol a chynllun rheoli wedi'i gytuno ym mhob un o'r pum sampl. Cyfeirir at dystiolaeth y gweithiwr allweddol yn adran 2a.

5 Ymgysylltu â'r Rheolwyr

Mae Gwasanaethau Canser wedi sefydlu nifer o grwpiau strategaeth/llywio sy'n dod â'r prif randdeiliaid sy'n cyflenwi gwasanaethau canser ar gyfer cymuned iechyd Cwm Taf at ei gilydd.

Mae Grŵp Llywio Gwasanaethau Canser yn cael ei gadeirio gan y cyfarwyddwr meddygol/arweinydd gweithredol ar gyfer canser, a dyma'r prif fforwm ar gyfer cyfathrebu â chlinigwyr arwain canser a'r timau amlddisgyblaethol. Mae tîm amlddisgyblaethol wroleg eisoes wedi cymryd rhan mewn nifer o fentrau gwella gwasanaethau. Fodd bynnag, nid oedd yn eglur beth oedd rhan y bwrdd gweithredol yn hyn o beth, na'r gefnogaeth a gafwyd ganddo.

6 Diwylliant y Timau

Mae'r tîm yn darparu gwasanaeth da sy'n canolbwyntio ar y claf ac sy'n cael ei arwain gan ymgynghorwyr, ac sydd ar ei ennill oherwydd gwaith tîm brwd. Mae arweinydd clinigol y tîm amlddisgyblaethol yn rhoi arweinyddiaeth ragorol i'r tîm, ac roedd yn amlwg bod y tîm wedi datblygu perthynas weithio gref – o fewn y tîm ac â chydweithwyr yn y ganolfan drydyddol.

Mae'r tîm wedi cydnabod y gellid gwella ei wasanaeth, ac mae wedi cymryd rhan mewn nifer

o fentrau gwella gwasanaethau ar y cyd â'r NLIAH er mwyn gwella effeithlonrwydd, effeithiolrwydd ac ansawdd ei wasanaeth.

Dangosodd y tîm amlddisgyblaethol a'r bwrdd iechyd eu parodrwydd i edrych y tu allan i'w gwasanaeth eu hun ar gyfer enghreifftiau o arfer da – er enghraifft, y gwasanaeth oncoleg aciwt ym Mwrdd Iechyd Aneurin Bevan. Gellid gwneud hyn hefyd trwy edrych ar sut mae'r bwrdd iechyd hwnnw wedi ymdrin â heriau cydlynu gwasanaeth ar ddau safle aciwt.

ARFER DA

Nodwch unrhyw feysydd o arfer da e

Arfer Da/Cyflawniadau Arwyddocaol:

- Tîm brwdfrydig sy'n canolbwyntio ar y claf – ac iddo arweinyddiaeth ragorol – ac sy'n darparu gwasanaeth cryf sy'n cael ei arwain a'i ddarparu gan glinigwyr
- Gwasanaeth radioleg da iawn a chefnogaeth dda ar gyfer y tîm amlddisgyblaethol
- Datblygiad clinig biopsi un stop a chlinigau PSA uchel a arweinir gan nyrsys
- Mae'r tîm amlddisgyblaethol wedi cyflwyno cyfarfod busnes ddwywaith y flwyddyn er mwyn datblygu eu gwasanaethau, ac mae wedi cymryd rhan mewn mentrau gwella gwasanaethau.

PERYGLON AR UNWAITH

DIM

PRYDERON DIFRIFOL

DIM

PRYDERON

- Mae llwybrau atgyfeirio gwahanol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl –efallai y gallai'r bwrdd iechyd ystyried gwaith pellach er mwyn symleiddio'r llwybr atgyfeirio.
- Mae cydlynu'r tîm amlddisgyblaethol wedi'i rannu ar draws y ddau safle, ac nid yw'r tîm amlddisgyblaethol wedi llwyddo i gyflwyno modiwl CaNISC y tîm yn fyw o fewn cyd-destun cyfarfod y tîm amlddisgyblaethol.
- Mae capasiti llwybrau gofal mewn perygl oherwydd lefelau staffio isel.
- Nid oes gan y bwrdd iechyd fecanwaith ar gyfer monitro perfformiad achosion sy'n cael eu cyfeirio at fyrddau iechyd eraill ar gyfer triniaeth radical.
- Diffyg gwasanaeth oncoleg aciwt
- Diffyg tystiolaeth o ymgysylltu â'r bwrdd gweithredol ynglŷn â meysydd o berfformiad a gwella gwasanaethau
- Lefelau gwael o recriwtio ar gyfer Banc Canser Cymru